

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Bontddu  
Nos Lun, Rhagfyr 12, 2016 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, Gethin Williams, Janet Edwards, Eirlys Roberts a Carwyn Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Llinos Williams.

**2. Datgan diddordeb:**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 8, 2016**

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 8, 2016**

Nid oedd materion yn codi.

**5. Materion Ariannol**

a. Llythyr (4 Tachwedd, 2016) oddi wrth Pennaeth Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd. Mae yn rhoi gwybod bydd y Cyngor yn ad-dalu rhywfaint o'r costau cynnal llwybrau cyhoeddus am 2016/17. Amgau mae holiadur i'w lenwi bydd yn ddefnyddiol wrth ystyried opsiynau yn y dyfodol.

Cwblhawyd yr holiadur.

b. Llythyr (16/11/2016) oddi wrth Swyddog Cofrestru / Canlyniadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gostau ynghlwm â'r etholiadau Cyngor Cymuned ym Mai 4, 2017 (yr un diwrnod ag etholiadau'r Cyngor Sir). Yr amcan gost i Ward Gymuned bydd £1,250 gyda hyd at 1,000 o etholwyr. Mae angen cymryd £1,250 i ystyried wrth baratoi praesept. Os fydd yr etholiad yn y Ward Gymuned yn ddi-wrthwynebiad fe godi'r tâl o £100 fesul ward etholiadol.

c. Llythyr (18/11/2016) oddi wrth Gwasanaeth Rholi Gwastraff a Strydoedd, Cyngor Gwynedd. Mae'r llythyr ynglŷn â biniau halen. Maent yn rhoi gwybod bydd y gost i lenwi yn £40 (i gychwyn haf 2017); ail-lenwi bin ar gais y gymuned fydd £60 (1 Hydref – 30 Ebrill). I ail lenwi bin bydd rhaid i'r Clerc gwneud cais gyda'r Swyddog Cyswllt: [Priffyrdmeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Priffyrdmeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru)

ch. Bil (31/10/2016) am £17.00 oddi wrth R.B.L. Dolgellau am 'type B wreath'.

Penderfynwyd talu'r bil.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION RHAGFYR 12, 2016

d. Mae Elfed ap Gomer wedi archwilio cyfrifon y Cyngor.

dd. Derbyniwyd (24/11/2016) £100 wrth Gwaith Coffaol Llanrug at daliad i osod beddfaen ar y diwedd ar Selwyn Goldsworthy.

e. Derbyniwyd tri phris at gynnal a chadw y Fynwent.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau ynglyn a'r mater.

f. Balans yn y banc ar 29 Tachwedd, 2016: £6,937.78.

ff. Bil (05/12/2016) am £35 tuag at bresenoldeb Elfed ap Gomer ar gwrs Dealltwriaeth o'r Gyfraith yn Bala.

Penderfynwyd talu'r bil.

g. Praesept at 2017 / 2018.

Penderfynwyd trafod y mater mis nesaf a gwneud ymoliadau gyda Cyngor Gwynedd i gael gwybod beth fydd y taliad ni ynglŷn â'r llwybrau.

## **6. Mynwent Llanelltyd**

a. Derbyniwyd cwyn bod gât isaf y fynwent yn anodd ei hagor.

Penderfynwyd gwneud dim ynglŷn â'r mater oherwydd does dim ym mater gyda'r gât.

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio NP5/65/124E. Cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw'n ôl i godi tŷ menter gwledig ac adeilad fferm. Tir ger Tŷ Pwmp, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais gydag amod nid oes datblygiad tu allan i'r llinell goch sydd yn cael ei ddangos ar y cais.

## **8. Gohebiaeth**

a. Poster (10/11/2016) oddi wrth Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gyfarfod i wneud fwy o ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd y cyfarfod dan arweiniad Dafydd Iwan, Cadeirydd hunaniaith. Bydd y cyfarfod yn Canolfan Henblas, Bala ar 2 Chwefror am 6.00-8-00yh.

b. Llythyr (15/11/2016) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru (trwy law Un Llais Cymru) yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud a ddim yn ei wneud.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION RHAGFYR 12, 2016

c. Llythyr ateb (16/11/2016) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd (ateb i Eitem 4. Eitem 10.i. yn Cofnodion Hydref 11, 2016). Maent yn rhoi gwybod bydd Arolygwr Priffyrdd yn trefnu gosod sianel goncrid lle mae'r dŵr yn rhedeg lawr y ffordd rhwng Murmur-y-Nant a Pant Llwyfog, Llanelltyd.

Mae'r Arolygwr eisiau rhywun i ddangos y lle diffyg ar y safle (Rhif ffôn: 01776 771 000).

ch. Llythyr (16/11/2016) oddi wrth y Groes Goch. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

d. Llythyr (28/11/2016) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd. Mae'r Cyngor yn annelu mwy o bobol i ystyried sefyll i fod yn gynghorwyr. Mae'r ymgyrch yn cynnwys dwy fideo sy'n rhoi gwybodaeth ac mae eu gweld ar wefan y Cyngor ar Bod yn Gyngorydd. Mae sesiynau sy'n codi ymwybyddiaeth, ac yr un lleol yw yn Swyddfa y Cyngor, Cae Penarlag, Dolgellau ar ddydd Mercher, 18 Ionawr 2017 am 6.00yh.

dd. Anfonwyd llythyr (4/12/2016) paratowyd gan Elfed ap Gomer i Comisiwn Ffiniau Cymru yn rhoi ein sylwadau ar Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru – Cynigion Cychwynnol. (Cofnodion Hydref 11, 2016, Eitem 8.a.).

e. Llythyr (7/12/2016) oddi wrth Un Llais Cymru. Maent yn rhoi gwybod bydd cwrs Sgiliau Cadeirio yn Canolfan Hen Blas, Stryd Fawr, Bala ar ddydd Mercher 18/1/2017 am 6.30yh.

f. Llythyr (9/12/2016) oddi wrth Un Llais Cymru. Cyfle i'r Cadeirydd a'i gwestai cael gwadd i arddwest Ei Mawrhydi ym Mhalas Buckingham ar 16 Mai, 23 Mai, 1 Mehefin 2017.

## **9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

Nid oedd adroddiad.

## **10. Materion Brys**

a. Gofynnwyd i'r aelodau archwilio biniau halen i gael gwybod os mae angen eu llenwi.

Derbyniwyd gwybodaeth gan Gareth Ellis bod biniau halen yn Cwm Wnyn yn llawn.

b. Dywedodd y Clerc ei fod eisiau ymddeol o'i swydd.

Cytunodd yr aelodau i wneud ymoliadau am Glerc newydd.

-----